

---

## Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

---

<b>Enw / Name:</b>	Owen Evans
<b>Rôl / Role:</b>	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
<b>E-bost / Email:</b>	<a href="mailto:Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru">Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru</a>
<b>Rhif Ffôn / Tel No:</b>	029 2044 6446
<hr/>	
<b>Dyddiad / Date:</b>	20.09.22
<b>Pwnc / Subject:</b>	<b>Newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir</b>

### Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

### Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnig cyfle gwerthfawr i randdeiliaid roi sylwadau ar y newidiadau arfaethedig allweddol i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir. At ei gilydd, mae'r cynigion yn gytbwys a synhwyrol. Maent yn ceisio esblygu'r safonau ar sail ystod o brofiadau diweddar ar draws y sectorau perthnasol.

- Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r diwygiadau drafft ac yn ystyried eu bod yn briodol.
- Rydym yn croesawu'r ffocws cynyddol ar gefnogi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, a'r uchelgais i ddatblygu'r ymagwedd hon o fewn y sector gofal plant a chwarae.

Rydym hefyd yn croesawu bod yr ymgynghoriad yn ceisio barn rhanddeiliaid ar y ffordd y gellid datblygu'r safonau ymhellach i gefnogi a datblygu'r Gymraeg yn fwy effeithiol ar draws y sectorau.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cyfeiriwch at adrannau perthnasol y ddogfen ymgynghori a'r ddogfen Safonau Gofynnol Cenedlaethol wrth ateb y cwestiynau.

Gwnaed newidiadau i egluro a chryfhau'r gofynion cymorth cyntaf ar gyfer yr holl ddarparwyr cofrestredig.

#### 1. Cwestiynau: Gofynion Cymorth Cyntaf (Safon 10: Gofal iechyd)

Gwnaed newidiadau i egluro a chryfhau'r gofynion cymorth cyntaf ar gyfer yr holl ddarparwyr cofrestredig.

#### Gwarchodwyr Plant - Safon 10.21-10.22:

- 1.1 Ydych chi'n cytuno y dylai fod gan gynorthwywyr gwarchod plant dystysgrif gyfredol lawn 12 awr mewn cymorth cyntaf pediatrig os ydynt yn cael eu gadael fel yr unig un sydd â gofal am y plant?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
Mae'n ymddangos bod hon yn ymagwedd gytbwys at sicrhau bod cynorthwywyr gwarchod plant wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf priodol os ydynt yn cael eu gadael fel yr unig un sydd â gofal am y plant.					

- 1.2 Ydych chi'n cytuno y dylai fod gan gynorthwywyr gwarchod plant dystysgrif gyfredol 6 awr mewn cymorth cyntaf pediatrig mewn argyfwng os ydynt yn cael eu gadael fel yr unig un sydd â gofal am y plant?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
-----	---	---------	--	----------------	--

Mae hyn hefyd yn sicrhau ymagwedd gytbwys at sicrhau ymdriniaeth briodol â chymorth cyntaf.

- 1.3 Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill o ran Cymorth Cyntaf mewn lleoliadau gwarchodwyr plant?

Rydym yn croesawu'r ffocws parhaus ar bwysigrwydd cymorth cyntaf mewn lleoliadau gwarchodwyr plant.

*Gofal Dydd - Safon 10.23-10.26:*

- 1.4 Ydych chi'n cytuno mai'r gofyniad ar gyfer gofal dydd yw bod yn rhaid bod gan o leiaf un oedolyn i bob deg o blant dystysgrif gyfredol lawn 12 awr mewn cymorth cyntaf pediatrig?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
Mae'n ymddangos bod hon yn ymagwedd gytbwys.					

- 1.5 Ydych chi'n cytuno bod yn rhaid bod gan bob aelod arall o staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr / hyfforddeion) mewn lleoliadau gofal dydd dystysgrif gyfredol 6 awr mewn cymorth cyntaf pediatrig mewn argyfwng?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
Bydd hyn yn sicrhau ymagwedd eang a chytbwys at amlygu pwysigrwydd gwybodaeth am gymorth cyntaf a hyfforddiant ynddo ar gyfer pob aelod o staff, gan gynnwys hyfforddeion a gwirfoddolwyr mewn lleoliadau.					

- 1.6 Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â chymorth cyntaf mewn lleoliadau gofal dydd?

Rydym yn croesawu'r ffocws parhaus ar bwysigrwydd cymorth cyntaf mewn lleoliadau gofal dydd.

*Chwarae Mynediad Agored - Safon 10.27-10.29:*

- 1.7 Ydych chi'n cytuno â'r gofyniad bod yn rhaid bod gan o leiaf 1 oedolyn i bob 13 o blant dystysgrif gyfredol lawn 12 awr mewn cymorth cyntaf pediatrig mewn lleoliadau chwarae mynediad agored sy'n derbyn plant o dan 8 oed?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
-----	---	---------	--	----------------	--

Mae'n ymddangos bod cynnal cymhareb 1:13 o ran oedolyn hyfforddedig yn gymesur ac yn cyd-fynd â'r gymhareb staffio ofynnol mewn darpariaeth chwarae mynediad agored ar gyfer plant o dan 8 oed.

- 1.8 Ydych chi'n cytuno â'r gofyniad bod yn rhaid bod gan o leiaf un person dystysgrif gyfredol lawn 12 awr mewn cymorth cyntaf pediatrig, a bod yn bresennol bob amser mewn lleoliadau chwarae mynediad agored sy'n derbyn plant dros 8 oed?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
Mae'n ymddangos bod yr ymagwedd hon yn gymesur ac yn sicrhau bod pobl wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael bob amser.					

- 1.9 Ydych chi'n cytuno, mewn lleoliadau chwarae mynediad agored, y dylai hyfforddiant pob aelod arall o staff adlewyrchu amgylchiadau'r lleoliad a bod yn seiliedig ar asesiad risg?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
Mae'n ymddangos bod yr ymagwedd hon yn gymesur ar sail y wybodaeth yn y ddogfen ddiweddaraf ar y Safonau Gofynnol drafft.					

- 1.10 Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynghylch cymorth cyntaf mewn lleoliadau chwarae mynediad agored?

Mae'n ymddangos bod yr ymagwedd gyffredinol at gymorth gyntaf yn y ddogfen ddiweddaraf ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol drafft yn gytbwys a chymesur, gan ystyried oedrannau plant. Mae'r ddogfen ymgynghori yn pwysleisio pwysigrwydd asesiadau risg rheolaidd.

*Cymorth Cyntaf – Cyffredinol*

- 1.11 Rhaid i gynorthwywyr gwarchod plant gwblhau eu hyfforddiant tystysgrif 6 awr mewn cymorth cyntaf pediatrig mewn argyfwng cyn dechrau gweithio, tra bod y safonau'n datgan ar hyn o bryd y dylai dechreuwyr newydd mewn lleoliadau gofal dydd gwblhau tystysgrif 6 awr mewn cymorth cyntaf pediatrig mewn argyfwng o fewn tri mis i ddechrau gweithio.

A ddylai tystysgrif gyfredol 6 awr mewn cymorth cyntaf pediatrig mewn argyfwng fod yn ofyniad cyn dechrau gweithio mewn lleoliad gwarchod plant a gofal dydd?

Dylai		Na ddylai		Ddim yn gwybod	x
Os oes gan y lleoliad y nifer ofynnol o ymarferwyr eisoes i fodloni'r gymhareb 1:10, a fyddai'n hanfodol i ddechreuwr newydd feddu ar y cymhwyster cyn dechrau yn y swydd? Gallai hyn o bosibl achosi oedi o ran pryd y bydd yr unigolyn yn dechrau yn y swydd os nad oes hyfforddiant ar gael yn barod. Mae'n ymddangos ei bod yn gymesur gadael cyfnod o amser ar ôl ei gyflogi i'r dechreuwr newydd gwblhau'r hyfforddiant ar yr amod nad yw'n cael ei adael fel yr unig un sydd â gofal am y plant a bod gan y lleoliad ddarpariaeth briodol. Byddai hyn hefyd yn cyd-fynd â'r safon ar gyfer cynorthwywyr gwarchod plant yn 10.23.					

**2. Cwestiynau:** Cynorthwywyr gwarchod plant (Safon 13 (CM): Person Addas)

Gofynnir eich barn ynglŷn â ph'un a ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 13 (CM) a'r canllawiau ychwanegol a ddarperir yn Atodiad A i gynorthwyo'r gwarchodwr plant cofrestredig.

*Mae Gwarchodwyr Plant - Safon 13.1(CM) – 13.7(CM) yn cyfeirio at y canlynol:*

2.1 Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys y wybodaeth ychwanegol fel yr amlinellir yn y safonau ac Atodiad A o ran cyflogi cynorthwywyr gwarchod plant?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
Mae'r canllawiau fel yr amlinellir yn Atodiad A y canllawiau yn ddefnyddiol o ran amlinellu cyfrifoldebau'r gwarchodwr plant wrth gyflogi cynorthwywyr gwarchod plant.					

2.2 Ydych chi'n cytuno bod y wybodaeth yn Atodiad A yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i gynorthwyo'r gwarchodwr plant i reoli cynorthwydd gwarchod plant a'i waith?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
Mae'n ymddangos bod y wybodaeth a amlinellir yn Atodiad A yn gynhwysfawr ac yn darparu canllawiau manwl i warchodwyr plant eu dilyn a chyfeirio atynt.					

2.3 Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â chynorthwywyr gwarchod plant?

--

**3. Cwestiynau:** Cymwysterau gofal plant ar gyfer darparwyr gofal dydd

Gofynnir am eich barn ynglŷn â ph'un a ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 13 (DC) o ran cymwysterau'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal dydd.

*Mae Aelodau Staff Eraill (Cymwysterau) – Safon 13.10 (DC) yn cyfeirio at y canlynol:*

- 3.1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y gellir cynnwys staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau Lefel 2 a 3 o fewn y cymarebau staffio mewn lleoliadau gofal dydd llawn?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
Credwn ei bod yn gymesur cynnwys staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 o fewn cymarebau staffio mewn lleoliadau gofal dydd llawn.					

- 3.2. Ydych chi'n cytuno â chanran staff (20%) y cynnig sy'n gallu gweithio tuag at gymwysterau Lefel 2 a 3 i gael eu cynnwys o fewn y cymarebau staffio mewn lleoliadau gofal dydd llawn?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
Mae'n ymddangos bod y cynnig yn synhwyrol a chymesur.					

- 3.3. A ddylai Llywodraeth Cymru ystyried yr elfen 'gweithio tuag at' ar gyfer lleoliadau eraill? Os felly, pa leoliadau? Pa ganran o staff fydddech chi'n cynnig sy'n briodol sy'n gweithio tuag at gymwysterau Lefel 2 a 3 i gael eu cynnwys o fewn y cymarebau staffio?

Lleoliad	Cytuno					% a awgrymwyd sy'n gweithio tuag at
Gofal Sesiynol	Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	20%
Chwarae Mynediad Agored	Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	20%
Arall (nodwch)	Ydw		Nac ydw		Ddim yn gwybod	20%

Mae'n ymddangos ei bod yn briodol cynnal disgwyliadau cyson ar draws yr ystod o leoliadau a darparwyr wrth fynd i'r afael â rheoliadau yn ymwneud â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

- 3.4. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill o ran cymwysterau gofal plant ar gyfer gofal dydd?

Mae'n ymddangos bod y newidiadau a awgrymir i gymwysterau gofal plant yn gytbwys ac yn rhoi ystyriaeth i ystod eang o ffactorau.

#### 4. **Cwestiynau:** Gweithwyr ychwanegol

Gofynnir eich barn ar b'un a ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig ar gyfer lleoliadau gofal dydd llawn sydd wedi eu cofrestru ar gyfer 20 neu fwy o blant.

*Mae Cymarebau Staffio (Gofal Dydd) - Safon 15.1 (DC) – 15.6 (DC) yn cyfeirio at y canlynol:*

- 4.1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r safon sy'n gofyn i leoliadau gofal dydd llawn sydd wedi eu cofrestru ar gyfer 20 neu fwy o blant ddiystyru rheolwyr â chymwysterau addas o fewn eu cymarebau staffio?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
Mae'r dystiolaeth o lacio'r safon hon dros dro yn ystod y pandemig yn dangos nad oedd yn ymddangos bod dileu'r safon yn arwain at adrodd am bryderon ynghylch ansawdd y gofal mewn lleoliadau.					

- 4.2. Ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i Safon 15.6 (DC) yn ddigon eglur ynglŷn â sut gall lleoliadau reoli cymarebau pan fydd gofyn i staff dreulio amser ar dasgau eraill?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
Mae'r diwygiadau'n rhoi digon o fanylion ynglŷn â diogelwch a diogeled plant.					

- 4.3. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â chymarebau staffio mewn lleoliadau gofal dydd?

Mae'n ymddangos bod y diwygiadau'n bragmataidd a synhwyrol o ystyried y newidiadau sy'n digwydd mewn darpariaethau yn ystod sesiwn. Hefyd, maent yn sicrhau bod diogelwch plant yn parhau i fod yn hollbwysig.

## 5. Cwestiynau: Ansawdd

Gofynnir eich barn ynghylch p'un a ydych yn cytuno â'r cynllun arfaethedig i ehangu'r Safon Ansawdd.

*Mae Ansawdd – Safon 18.1 – 18.5 yn cyfeirio at y canlynol:*

- 5.1. Ydych chi'n cytuno bod y wybodaeth ehangach fel yr amlinellir yn Safon arfaethedig 18 yn cefnogi gwella ansawdd parhaus mewn gwasanaethau gofal plant?

Ydw		Nac ydw		Ddim yn gwybod	x
<p>Rydym yn croesawu'r cam i ehangu Safon Ansawdd 18 sy'n rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd sicrhau myfyrio, gwerthuso a gwelliant parhaus. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod Safon 18.3 yn gwrth-ddweud hyn trwy awgrymu bod yr Adolygiad o Ansawdd Gofal yn ddigwyddiad untro sy'n gorffen mewn adroddiad ysgrifenedig. Byddai'n fuddiol sicrhau bod Safon 18 i gyd wedi'i seilio ar bwysigrwydd myfyrio, gwerthuso a gwelliant parhaus. Hefyd, mae'n bwysig sicrhau nad yw'r Adolygiad o Ansawdd Gofal yn dod yn ymagwedd rhy feichus ar gyfer lleoliadau. Byddai'n ddefnyddiol cael dealltwriaeth ar y cyd o'r hyn sydd ei angen fel rhan o'r adroddiad hwn, os dyna'r canlyniad sydd ei angen o hyd. Mae'r ffocws ar ddefnyddio offer fel Fframwaith Ansawdd Addysg a Gofal y Blynyddoedd Cynnar (ECEC), pan fydd ar gael, yn debygol o gefnogi cysondeb ar draws y sector.</p>					

- 5.2. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynghylch ansawdd?

<p>O fewn y fframwaith arolygu ar y cyd gan AGC ac Estyn, rydym yn gwerthuso hunanwerthuso, monitro a chynllunio ar gyfer gwelliant trwy ganolbwyntio ar effeithiolrwydd y gweithdrefnau sydd ar waith. Yn hyn, rydym yn ystyried pa mor dda yw prosesau monitro a hunanwerthuso'r lleoliad:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• defnyddio tystiolaeth uniongyrchol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella'r lleoliad yn gywir</li><li>• ystyried barn staff, rhieni / gofalwyr, plant, a rhanddeiliaid eraill</li><li>• defnyddio adolygiadau, cyngor ac adborth gan asiantaethau allanol, lle bo'n briodol</li><li>• blaenoriaethu'r materion y maent yn dymuno'u gwella</li><li>• rhoi strategaethau cadarn ar waith sy'n debygol o ysgogi'r gwelliannau dymunol</li></ul>
--



- dyrannu canlyniadau cyllid priodol mewn gwelliant yn ansawdd gofal, chwarae a dysgu
- arwain at wneud gwelliannau a chael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant

Mae'r ffocws ychwanegol ar sicrhau ansawdd trwy fyfyrion, adolygu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn cyd-fynd yn agos â'r fframwaith arolygu ar y cyd, ac yn debygol o annog a chefnogi lleoliadau a darparwyr â'r gwaith hwn.

**6. Cwestiynau: Diogelu**

Gofynnir eich barn ynghylch p'un a ydych yn cytuno â'r cynllun arfaethedig i Safon Diogelu 20.7, yn enwedig o ran gofynion hyfforddi.

*Mae Diogelu - Safon 20.7 yn cyfeirio at y canlynol:*

6.1. Ydych chi'n cytuno y dylai pob aelod o staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae ymgymryd â hyfforddiant diogelu gorfodol?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
Dylai staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae i gyd ymgymryd â'r lefel briodol o hyfforddiant diogelu gorfodol i gyflawni eu dyletswydd i ddiogelu'r holl blant yn eu gofal.					

6.2. Ydych chi'n cytuno y dylai gwahanol ofynion hyfforddi fod i wahanol rolau o fewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae? A yw Atodiad C yn adlewyrchu'n ddigonol y rolau a ddylai fod yn y gwahanol grwpiau?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
Mae'r gofyniad i staff â gwahanol gyfrifoldebau o fewn lleoliadau ymgymryd â graddau gwahanol o hyfforddiant diogelu yn ymddangos yn briodol.					
Mae'r gwahanol rolau fel yr amlinellir yn Atodiad C a'r gwahanol lefelau hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer pob categori yn ymddangos yn gymesur.					

6.3. Ydych chi'n cytuno y dylai'r hyfforddiant gorfodol yn Atodiad C fod yn grynodol, e.e. mae angen cwblhau hyfforddiant Grŵp A cyn Grŵp B, ac ati?

Ydw	•	Nac ydw		Ddim yn gwybod	
-----	---	---------	--	----------------	--

Mae'n ymddangos yn synhwyrol a chymesur fod y gwahanol lefelau hyfforddiant yn grynodol ac yn adeiladu ar brofiad blaenorol unigolyn.

6.4. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynghylch Diogelu?

Mae'n amlwg y rhoddwyd ystyriaeth drylwyr i ddiogelu, a'i fod wrth wraidd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

7. **Cwestiynau:** Diwygiadau i safonau eraill

Gofynnir am eich barn ynghylch p'un a oes yna unrhyw ddiwygiadau eraill y dylai Llywodraeth Cymru eu gwneud i'r safonau, fel yr amlinellir isod.

*Diwygiadau eraill:*

7.1. A oes yna unrhyw fân ddiwygiadau y dylai Llywodraeth Cymru ystyried eu gwneud ar hyn o bryd? Nodwch y safon benodol a'r diwygiad arfaethedig.

Safon:		Diwygiad Arfaethedig	

7.2. Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ynghlŷn â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yr ydych yn dymuno'u rhoi ar hyn o bryd?

--

8. **Cwestiynau:** Cyfle Cyfartal

Gofynnir am eich barn ar sut y gall y Safonau Gofynnol Cenedlaethol gefnogi newid cadarnhaol o ran hiliaeth. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn bwydo i ddarn o waith mwy i gynorthwyo'r sector i ymateb i hiliaeth ac anghydraddoldeb hiliol. Bydd dadansoddiad cryno o ymatebion yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn hefyd yn bwydo i grŵp gwaith yn edrych ar ymateb y sector i'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

*Mae Cyfle Cyfartal - Safon 16.1-16.3 yn cyfeirio at y canlynol:*

8.1. A yw'r safonau presennol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i faterion hil a hiliaeth?

Ydyn		Nac ydyn	•	Ddim yn gwybod	

Mae'r canllawiau o fewn Safon bresennol 16 yn cyfeirio'n glir at gyfle cyfartal o fewn polisi ac arfer. Maent yn cyfeirio'n glir at bwysigrwydd sicrhau bod ymarferwyr ar draws y sectorau yn glynu at bolisi a chanllawiau, i sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r ffocws rhagweithiol cynyddol ar gefnogi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a'r uchelgais i ddatblygu'r ymagwedd hon o fewn y sector gofal plant a chwarae.

8.2. A ddylid cofnodi materion hil a hiliaeth o fewn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol?

Dylid	•	Na ddylid		Ddim yn gwybod	
Rydym yn croesawu'r cyfle yn yr ymgynghoriad hwn i ystyried barn yr holl randdeiliaid mewn datblygu'r ymagwedd at Gymru Wrth-hiliol.					

8.3. Pa ddiwygiadau y gellid eu gwneud i'r safonau presennol i adlewyrchu newid priodol?

Safon:		Diwygiad Arfaethedig	

8.4. A oes yna unrhyw ddiwygiadau eraill y dylai Llywodraeth Cymru ystyried eu gwneud ar hyn o bryd ynghylch Cyfle Cyfartal ac / neu anghydraddoldeb hiliol?

--

## 9. Cwestiynau: Effaith ar y Gymraeg

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cynigion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

*Y Gymraeg:*

9.1. Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau ar y Gymraeg? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Ar hyn o bryd, cyfeirir at y Gymraeg ym 'mholisiau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru.' Fodd bynnag, teimlwn y gellid cryfhau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol i sicrhau datblygiad y Gymraeg. Byddai'n fuddiol

ystyried y ffordd y mae darparwyr yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r iaith ar draws ystod eu gweithgarwch, ar draws ystod y safonau. Er enghraifft, gallai fod cyfeiriad at ddatblygiad y Gymraeg yn Safon 7: Cyfleoedd ar gyfer chwarae a dysgu. Byddai hyn yn hyrwyddo amcanion ehangach Llywodraeth Cymru ynglŷn â datblygiad siaradwyr Cymraeg.